y Dinesydd

Y 200 FED RHIFYN

CHWEFROR 1994 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD RHIF 200

**Y mis hwn cyhoeddwn y dau ganfed rhifyn o'r DINESYDD, ac yma mae Shân Emlyn, un o'r cyn-olygyddion mwyaf triw yn hanes y cylchgrawn, yn edrych yn ôl dros oes papur bro hynaf Cymru, ac yn ei geiriau hi a Dafydd Iwan.....**

# 'DA NI YMA O HYD

Deffro'n blygeiniol ar fore Sul, gan wybod bod yn rhaid i mi rhywsut lunio cyfarchiad i ddau ganfed rhifyn o'r **Dinesydd**. O glydwch y gwely tua'r pump 'ma cael yn aniddig fy ysgogi i fynd i'r cwpwrdd sydd dan ei sang o ôl rifynau'r **Dinesydd** i chwilio am y canfed rhifyn. Ar y clawr y penawd **Can-Molwn**. O dan y penawd llythyr dychmygol o gyfarchiad gan y Frenhines yn ôl traddodiad pawb o'i theyrnas wêl ei ganfed.

Yn ôl i swatio a deud wrthyf hun, 'Wel, mae gen ti ryw fan cychwyn.' Codi tua'r saith 'ma, a'r penawd yn dal ar fy meddwl, a hel atgofion am ddyddiau cynnar **Y Dinesydd**. Y pwyllgorau, y siswrn a'r gliw, partïon Nadolig, yr argyfwng ariannol parhaus, yr apeliadau diddiwedd. Pam ddim gwerthu'r cylchgrawn? Sut? Faint ohonoch fyddai'n fodlon mynd o ddrws i ddrws i'w werthu mewn dinas fel Caerdydd? Anymarferol, mae arna i ofn, os nad oes gan rhywun amgenach weledigaeth na'r un o eiddo y criw bach fu'n ymlafnio dros y blynyddoedd.

Rhwng wyth a deg o'r gloch, dal i feddwl - a chlywed 'Dros Gymru'n Gwlad' ddwywaith. Troi'n ôl at y canfed rhifyn a gweld penawd arall 'Yn Gant ac Eto'n Gyntaf' a chyfarchiad Merêd (Evans), y sylfaenydd, a'm sylw'n mynd at y dyfyniad hwn, 'A dyma **yw'r** gwaith gwirioneddol anodd - cynnal y papur o rifyn i rifyn pan yw'r brwdfrydedd cyntaf wedi troi'n lludw llwyd.'

Yn 'lludw llwyd' **Y Dinesydd** mae 'na golsyn coch o ymlyniad yn parhau. A oes gobaith i'r colsyn hwnnw gydio a thanio yn eich mysg chi, ddarllenwyr? Gwae ni os nad oes. Oddi ar geni'r **Dinesydd** y mae Cymrecitod Caerdydd wedi'i weddnewid. Adlewyrchiad o hynny yw bodolaeth **Y Dinesydd.** Trychineb fyddai cymryd cam yn ôl. 'Deffro, mae'n ddydd' ac ymlaen â'r **Dinesydd**. Wrth imi sgwennu'r frawddeg hon, ar Radio Cymru mae Dafydd Iwan yn morio 'er gwaetha' pawb a phopeth 'da ni yma o hyd'.

# Canmol Y Cerddwyr



Angharad Mair ar fin torri'r rhuban i ddechrau'r daith gerdded

Hoffai Pwyllgor Sir yr Urdd yn Ne Morgannwg ddiolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn y Noddi Cerdded yn ystod mis Tachwedd ym Mharc y Rhath Caerdydd a Pharc Romilly yn Y Barri.

Hoffai'r pwyllgor hefyd ddiolch i Angharad Mair am ei chefnogaeth yn ystod y prynhawn. Bu'n achlysur llwyddiannus iawn ac fe godwyd dros £500 tuag at darged blynyddol yr Urdd yn Ne Morgannwg. Yr ysgolion a gymerodd ran oedd Ysgol Pencae, Y Wern, Treganna, Melin Gruffydd a Sant Baruc.

## Gareth Jenkins

**DEINTYDDIAETH COSMETIG
A CHLINIGAU MEWNBLANNU
Y PARADE**

'Rydym yn ymgymryd â phob math o ofal deintiol'

**DANNEDD DA, GWÊN DEG**

Gall triniaeth ddeintiol arbenigol gymryd lle dannedd sydd wedi torri neu rhai sydd ar goll

Mae'r holl gyfarpar a ddefnyddiwn wedi eu diheintio gydag Autoclave

Mae'r dulliau diheintio yma yn lladd pob Bacteria a Firws

**Gareth Jenkins FDSRCS, MScD, BDS**

Cymrawd a Diplomydd Cyngres Ryngwladol y Mewnblanegwyr

23, Y Parade, Y Rhath, Caerdydd
Ffôn 0222 481486

## Ysgol Gyfun Gwynllyw

Prifathrawes: Mrs L. M. Jones

Angen: Athro/athrawes Celf
(rhan amser am ddau dymor)
i ddysgu bob dydd Llun a bob bore Gwener, plant blynyddoedd 7, 8, 9 a 10.

Os oes gennych ddiddordeb, ffoniwch y Brifathrawes ar 0495 750405, os gwelwch yn dda.

## Cynorthwydd Siop Rhan-Amser

Mae angen Cynorthwydd Siop yn Gwalia Stores, siop o ddechrau'r ganrif wedi'i hail-godi yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn berson profiadol, a disgwylir iddynt weithio mis o brawf. Cyflog a thelerau i'w trafod.

Ceisiadau i Mrs Gloria Evans, Gwalia Stores, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB

## EGLWYS EBEBESER,
## HEOL SIARL, CAERDYDD

Nos Sadwrn,
Chwefror 26ain 1994
Cyngerdd Arbennig

## Côr Caerdydd

arweinydd Gwawr Owen

Enillwyr Eisteddfod Genedlaethol
1992 a 1993
Gŵyl Gorawl Corwen 1992

I ddechrau am 7.30 p.m.

Pris £3    Plant £1

Yr elw tuag at Elusen y Capel - 'Motor Neurone'
(Trefnir gan y Gymdeithas Lefaru)

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 704706, 555924 neu 623750

ADRAN Y GYMRAEG

## M A MEWN
## ASTUDIAETHAU GWERIN

Cynigir y radd hon ar y cyd gan Amgueddfa Werin Cymru ac Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Caerdydd

Ymhlith y pynciau a astudir bydd arferion traddodiadol, llên gwerin, ac agweddau ar fyw yn y gymuned Gymreig.

Cwrs blwyddyn (llawn amser) yn dechrau fis Hydref.

Am fanylion pellach, ysgrifennwch at
Y Cofrestrydd
Prifysgol Cymru Caerdydd
Blwch SP 78
Caerdydd CF1 1XL

CAERDYDD

# DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH

Er mai ara deg y mae'r arian yn dod i law i gynnal **Y Dinesydd** mae'n bleser cael diolch i rai a gyfrannodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf - heb eich cymorth hael chi byddai'r **Dinesydd** wedi hen fynd i'w aped, chwedl Wil Bryan. Gobeithio y bydd cymdeithasau a chwmniau sy'n cael eu rhedeg gan Gymry Cymraeg y brifddinas yn dilyn eich esiampl chi yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Diolch fil i:-

Cylch Cinio Cymraeg Y Barri
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd
Cylch Cinio Gwragedd Caerdydd
Cylch Llyfryddol Caerdydd
Eglwys Ebeneser
Eglwys Y Crwys
Ysgol Gymraeg Caerffili
Tabernacl
Fflic
Banc Y National Westminster
Mudiad Hybu Iechyd Cymru
Ffilmiau'r Nant
Coleg Dewi Sant
Coleg Prifysgol Cymru

Mewn adolygiad yn **Y Dinesydd** o gyfrol Mihangel Morgan 'Saith Pechod Marwol', dywed Mary Jones fel a ganlyn: "Wn i ddim, chwaith, a yw un ddalen ar bymtheg o ddisgrifiad manwl o garwriaeth dau ddyn, a'r naill yn lladd y llall o genfigen, yn destun stori fer."

Nid yw'n manylu ar baham nad yw perthynas hoyw'n addas - ond mae'n anodd gennyf gredu nad homoffobia rhonc sy' tu ôl i'w gwrthwynebiad. Os yw perthynas heterywiol yn ddigon o sail i aml i nofel, paham nad yw carwriaeth hyfryd yn medru bod yn destun stori fer? Fel sy'n digwydd yn aml, nid yw geiriau Mary Jones yn adlewyrchu dim ar y gyfrol heblaw i fynegi ei rhagfarnau mympwyol. Swyddogaeth adolygydd yw adolygu - gadewch y pregethu i'r capeli, da chi!

**DAFYDD FRAYLING**
Heol y Gadeirlan, Caerdydd

Mewn ymateb i'ch erthygl ddi-flewyn ar dafod bwrpasol iawn yn **Y Dinesydd** y mis diwethaf, rwy'n credu y byddai'n syniad da i godi tâl amdano yn y dyfodol er mwyn ei arbed. Mae'n bapur sy'n rhoi pleser mas draw i mi ac i lawer bob mis. Buaswn yn fwy na bodlon i dalu amdano.

**HUANA SIMPSON**
Y Bontfaen

## Y Dinesydd Mawrth

**Dylid anfon adroddiadau, erthyglau a newyddion at Ysgrifennydd y Pwyllgor Golygyddol, Catrin Lloyd Rowlands, 15 Branwen Close, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4NE erbyn Chwefror 19. Ffôn: 0222 598243**

# BARN Y BOBOL

## *Ydyn ni'n haeddu'r Dinesydd?*

Gofynwyd y cwestiwn hwn i ni gan Alun Ceri Jones, cadeirydd **Y Dinesydd**, a chredaf y dylid cynnig ateb. Yn syml iawn, nac ydym. Rhyw rygnu byw fu hanes **Y Dinesydd** erioed, ac mae'r broblem ariannol wedi codi'n gyson dros ugain mlynedd ei hanes. Bûm i yn dadlau rai blynyddoedd yn ôl dros ei werthu, ac os yw i weld diwedd y ganrif rhaid trefnu gwneud hyn yn fuan.

'A geir yn rhad a gerdd yn rhwydd' meddai'r hen ddihareb, ac mae mor wir. Mae yna bapurau lleol rhad yn ein cyrraedd yn gyson bob wythnos a go brin y byddwn yn edrych arnynt. Cânt eu rhoi yn syth yn y sgip ailgylchu. Mae llawer gormod o gopiau o'r **Dinesydd** yn cael eu hargraffu - byddai'n llawer mwy rhesymol i argraffu rhyw 1000 o gopiau bob mis a'u gwerthu. Y broblem yw sicrhau gwerthiant ymhlith poblogaeth Gymraeg mor wasgaredig.

Yn yr America mae tua 3000 o gopiau o'r papurau Cymraeg 'Ninnau' a'r 'Drych' yn cael eu postio'n fisol i ddarllenwyr ar draws y cyfandir. Mae hyn yn bosibl drwy gynllun tanysgrifio, a chredaf y dylid ystyried hyn i sicrhau dyfodol **Y Dinesydd**.

Efallai y dylid ystyried hefyd gyhoeddi'r papur bob yn ddeufis. Fel y soniodd Alun yn ei erthygl ym mis Rhagfyr mae apathi mawr yn ein plith fel Cymry Cymraeg yn y brifddinas. Rwyf i'n bersonol yn anhapus iawn â chynnwys y papur ers tro byd. Mae angen llawer mwy o hanesion lleol, hanes pobl yn mynd a dod yn y ddinas, a beth am dipyn o hanes ein clybiau chwaraeon? Faint ohonoch, tybed, sy'n cofio cyfnod cyffrous 'Dyddiadur y Dyn Dwad' - a oes gobaith cael rhywbeth tebyg eto? Diolch i'r pwyllgor presennol am eu hymdrechion di-ddiolch. Mae'n amlwg fod sefyllfa argyfyngus yn gofyn am gamau chwyldroadol i'w newid. Os na allwn ni werthu rhyw fil neu ddwy o gopiau o'r **Dinesydd** bob deufis, mawr fydd ein cywilydd, a bydd **Y Dinesydd** yn haeddu cael ei roddi i orffwys am byth.

**JOHN ALBERT EVANS**
Llysfaen, Caerdydd

# Apêl Dinesydd 2000

## *Tanysgrifiwch £15 i Dinesydd 2000*

Llenwch y ffurflen, ei rhoi mewn amlen a'i dychwelyd at Dinesydd 2000, d/o Surrexit Cysylltiadau Torfol, Rhadbost - Freepost, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 1ZZ

Dymunaf gyfrannu i Dinesydd 2000
☐ £15 ☐ swm arall
(nodwch faint) £________

Enw: ..........................................
Cyfeiriad: ..........................................
..........................................
..........................................
Rhif ffôn: ..........................................
Dymunaf dalu â siec ☐ ticiwch yma os dymunwch gael derbynneb am eich siec ☐
archeb banc ☐ (llenwch gyferbyn)

*Archeb Banc*
I Fanc ccc ..........................................
Cangen ..........................................

Byddwch cystal â thalu i Fanc y National Westminster, 10 Heol Hendre, Pencoed, Penybont ar Ogwr, Morgannwg Ganol CF35 5NW (Rhif côd didoli 60-16-48) i gredyd Dinesydd 2000 rhif 56401388, y swm o £_____ i ddechrau ar __/__/__ ac wedyn bob blwyddyn/6 mis (dilëwch fel bo'r angen) hyd nes y derbyniwch rybudd pellach gennyf/ gennym, a debydu fy/ ein cyfrif yn unol â hynny.

Cyfrif i'w ddebydu ..........................................
Rhif y cyfrif ..........................................
Llofnod (ion) ..........................................
Dyddiad ..........................................

Cyhoeddir gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig

NEWYDDION

## YR EGLWYS NEWYDD

- Yn ystod Wythnos Genedlaethol y Coed ym mis Rhagfyr, plannwyd derwen goch er cof am y chwaraewr rygbi adnabyddus, Rhys Haydn ('R.H') Williams, yng Ngerddi'r Orsedd ym Mharc Cathays, gan ei weddw, Mrs Megan Williams, Heol-y-gors. Plannwyd y goeden ar fore'r gêm rhwng y Barbariaid a Seland Newydd, a nifer o enwogion o fyd rygbi ar draws y byd yn bresennol ar yr achlysur.
- Mae'n dda gweld fod y siop bapurau gyferbyn ag Ysgol Melin Gruffydd yn gwerthu cardiau Cymraeg a llyfrau Cymraeg i blant.
- Llongyfarchiadau i'r deintydd blaenllaw, W. Gareth Jenkins, ar dderbyn anrhydedd uchaf 'Cyngres Ryngwladol y Mewnblanegwyr' (International Congress of Implantologists). Mae Mr Jenkins yn byw yn yr Eglwys Newydd ac mae ganddo glinig yn y Parade yn y Rhath.
- Llongyfarchiadau i'r actor ifanc addawol, Matthew Evans, un o gyn-ddisgyblion Ysgol Melin Gruffydd, ar fod y cyntaf i ennill Ysgoloriaeth Goffa Patricia Rothermere a fydd yn ei alluogi i ddilyn cwrs tair blynedd mewn ysgol ddrama. Cyflwynwyd yr ysgoloriaeth iddo gan yr actores Diana Rigg mewn noson wobrwyo yng Ngwesty'r Savoy yn Llundain.
- Cynhelir Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd yn neuadd capel Bethel, Heol Pen-llin, nos Wener, 11 Mawrth, am 7.30 o'r gloch. Y gŵr gwadd fydd y Parch Ieuan Davies, Minny Street.
- Llongyfarchiadau i holl blant Adran Iau Ysgol Melin Gruffydd ar eu cyngerdd Nadolig, a gynhaliwyd yng nghapel Ebeneser, Charles Street, ddwy noson yn olynol ar ddechrau mis Rhagfyr. Yn hanner cynta'r rhaglen cafwyd cyflwyniad hyfryd o garolau a barddoniaeth Nadoligaidd, ac yna yn yr ail hanner cafwyd perfformiad gwych o'r ddrama gerdd, Jona', gyda Mathew Daniel yn chwarae rhan Jona. Roedd yn bleser gweld pob disgybl yn cymryd rhan ac yn gwneud hynny mewn ffordd mor ddisgybledig a graenus. Diolch i'r plant a'r athrawon am eu holl waith caled. Diolch hefyd i'r cwmni teledu lleol, 'Opus', am noddi'r gyngerdd.
- Bu nifer o blant Ysgol Melin Gruffydd yn cystadlu yng Ngala Nofio'r Urdd, De Morgannwg. Nofiodd pawb yn dda. Enillodd tîm cyfnewid y bechgyn a thîm cyfnewid y merched dan 12 oed, ac enillodd Mari Osborne a Geraint Lewis mewn rasys unigol. Da iawn bawb!
- Llongyfarchiadau i'r Athro Robin Williams, pennaeth Adran Ffiseg Coleg y Brifysgol yng Nghaerdydd, ar gael ei benodi'n Brifathro Coleg y Brifysol yn Abertawe.

# ROBIN YN AGOR GWASANAETH CYMRAEG ~ YN AWSTRALIA



Ers deuddeng mlynedd bu Robin Jones, prif gyflwynydd gyda S4C yng Nghaerdydd, yn cyfrannu newyddion yn Gymraeg yn fisol i raglen radio sy'n gwasanaethu ardal Sydney yn Awstralia.

Ar Ionawr 26 agorodd Prif Weinidog Awstralia, Paul Keating, wasanaeth radio newydd i leiafrifoedd led led y wlad, ac yn dilyn sefydlu y gwasanaeth cenedlaethol newydd bydd y rhaglen fisol Gymraeg yn cynyddu i fod yn rhaglen awr. Gwahoddwyd Robin i lawnsio'r gwasanaeth Cymraeg newydd a chynorthwyo gyda hyfforddi tîm o ddarlledwyr i redeg y gwasanaeth yn y dyfodol.

Ar gyfer yr ymweliad arbennig yma roedd Robin yn cyflwyno pecyn o gryno ddisgiau diweddaraf Sain i'r rhaglen - disgiau sy'n cynnwys caneuon Dafydd Iwan ac Ar Log, emynau mwyaf poblogaidd Cymru, Bryn Terfel yn canu caneuon Meirion Williams, Goreuon Côr Meibion Llanelli a Goreuon Canu Gwerin Cymru.

Wrth wahodd Robin Jones i agor y gwasanaeth Cymraeg newydd, dywedodd Geraint Evans o Adran Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Sydney, sydd hefyd yn gyfrifol am drefnu'r gwasanaeth, 'Y mae cefnogaeth Robin dros y blynyddoedd wedi bod yn ganolog i lwyddiant y rhaglen yma, a bydd ei gefnogaeth ef ac S4C yn hwb sylweddol wrth i ni edrych ymlaen i'r dyfodol.'

Bydd Robin yn dychwelyd i Gaerdydd ar yr 8fed o Chwefror, ac mae wedi addo adrodd hanes ei daith i Awstralia yn ein rhifyn nesaf, sef rhifyn mis Mawrth.

## CYMDEITHAS GYMRAEG RHIWBEINA

- Ym mis Rhagfyr croesawyd Mrs Mallt Anderson i'n plith i siarad am hen arferion y Nadolig, a chafwyd noson hwylus dros ben.
- Cofiwch bod dyddiad y Gymanfa Ganu wedi ei newid i nos Sul, Mawrth 6ed. Fe'i cynhelir am 8 o'r gloch yng nghapel Beulah, dan arweiniad Alun Guy. Gymry Caerdydd, dewch atom - fe fydd croeso cynnes iawn i chi.
- Nos Iau, Mawrth 17eg byddwn yn cynnal Eisteddfod Dwp am 7.30 o'r gloch. Sylwer mai yn festri Beulah y bydd yr eisteddfod, ac nid yn y Llyfrgell yn ôl yr arfer. Fe fydd testunau'r cystadleuthau ar gael yn fuan. Chi bobl sy'n methu dod atom ar nos Iau, dyma'ch cyfle i chi gyfrannu i'r Gymdeithas. Mae croeso arbennig i chi gystadlu.
- Llongyfarchiadau i Myra ac Emyr Jenkins ar enedigaeth eu hwyres fach gyntaf - Indeg Elen, sef merch fach Manon a Jeremy Williams. Pob hapusrwydd i'r teulu cyfan.
- Croeso cynnes i Mrs Harriet Davies sydd wedi symud o Landysul i fyw i'n plith gyda'i merch Falmai Griffiths, a Brian a Siriol.
- Llongyfarchiadau i Geraint Francis, mab Gwenda a Dennis Maes-y-Deri, ac ŵyr Mrs Meirwen Davies, ar ei berfformiad yn y ddrama 'Gadael Lenin' ar y teledu ar ddydd Nadolig. Gobeithio y gwelwn ni di ar y teledu eto'n fuan, Geraint.
- Llongyfarchiadau hefyd i Trystan Francis (brawd Geraint) ar ei ganu bendigedig yn y ddwy noson o ddathlu'r Nadolig yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Roedd clywed Trystan yn canu 'Panis Angelicus' i gyfeiliant telyn Mrs Margaret Harries, yn wefreiddiol.
- Llongyfarchiadau i Bethan Williams, Heol y Coed, ar ei dyweddiad â Geraint Jones, Pontcanna (ond yn wreiddiol o'r gogledd). Mae Bethan yn Bennaeth Adran Beioleg yn Ysgol Cwm Rhymni, a Geraint yn ysgrifennu sgriptiau i'r cyfryngau. Pob hapusrwydd i chi'ch dau.
- Fe fydd Ysgol Feithrin Rhiwbeina, Maes-y-Deri, yn cynnal bore coffi i ddathlu dydd Gŵyl Ddewi ar fore dydd Sadwrn, Chwefror 26ain o 10.30 i 12 ganol dydd. Croeso cynnes i bawb.
- Dymunwn adferiad buan i Mrs Sue Morgan, mam Rhys a Gwenda.
- Cafwyd noson fendigedig ym mis Ionawr gydag Alun Guy a phlant Ysgol Glantaf. Diolch i Lisa Tomas, Rebecca Walter Jones a Trystan Francis am eu cyfraniadau gwych i'r Noson Gerddorol.

## O ARDALOEDD ERAILL

- Llongyfarchiadau i Nia Dafydd a John Hayes ar eu dyweddiad. Mae Nia yn gweithio i S4C a John yn bennaeth yr Adran Ddaearyddiaeth yn Ysgol Glantaf. Pob hapusrwydd i'r ddau.
- Llongyfarchiadau i Marged Evans, Pontcanna ar ei dyweddiad â Peter Cartwright o'r Bontfaen. Mae Marged yn bennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Rhydfelen. Dymuniadau gorau iddynt.

# TEULU ARBENNING YN DATHLU ACHLYSUR ARBENNIG



Llongyfarchiadau a chyfarchion gwresog i Handel a Heulwen Morgan, Llandennis Avenue, Cyncoed sydd newydd ddathlu eu priodas ddiemwnt. Fe'u priodwyd gan y Parch Williams Hughes yn y Tabernacl ar y 26ain o Ragfyr, 1933.

Perchennog siop y Bon Marche yn Crwys Road oedd tad Heulwen ac roedd dewis y diwrnod hwn i briodi, sef y diwrnod ar ôl y Nadolig, yn arferol i bobl busnes gan fod y Sadyrnau mor brysur bob amser. Roedd ei thad, Morgan Davies, yn drysorydd y capel, yn gynghorwr annibynnol, yn Ddirprwy Arglwydd Faer ym 1945 ac yn gefnogol i bob menter yn ymwneud â diogelu'r iaith - Y Cymmrodorion, yr Urdd, yr eisteddfod a sefydlu'r Ysgol Gymraeg gyntaf.

Llwyddodd i gynnal ei Gymreictod ar ôl dod i Gaerdydd ar droad y ganrif a phrofodd galon lân a bywyd moethus. Magwyd Heulwen felly ar aelwyd Gymreig yn y ddinas, ac mae hithau nawr bron yn 87 mlwydd oed. Bu ei chyfraniad hi hefyd at addysg Gymraeg yn werthfawr, yn cludo plant i'r unig ysgol feithrin yng Nghaerdydd ar y pryd, ac yn trefnu parti mawr i'r holl blant a'u mamau yn ei chartref bob haf, oherwydd roedd digon o le yn yr ardd i chwarae a chuddio a dringo!

Daeth Handel ar y llaw arall o'r Rhondda lle roedd y rhan fwyaf o'i deulu a'i gyfoedion yn gweithio dan ddaear. Ond fe gafodd e'r fraint o addysg prifysgol cyn mynd yn athro, yn gyntaf i Lundain, wedyn i Bengam ac oddi yno i Goleg Brys Wrecsam lle bu'n hyfforddi athrawon. Yna yn ôl i Gaerdydd i'r Coleg Hyfforddi oedd bryd hynny yn y Waun cyn ymuno â Choleg y Brifysgol fel gweinyddwr â chyfrifoldeb bugeiliol yn arbennig tuag at fyfyrwyr o wledydd tramor. Fe ledaenodd ei adennydd i bob cornel o'r byd i roi croeso a chysur i'r ymwelwyr hyn, ac mae rhai ohonynt yn dal i gadw mewn cysylltiad hyd heddiw.

Ganed pedwar o blant iddynt - Paul, a aeth i'r môr a theithio'r byd a dod yn gapten ar longau enfawr yn cludo olew; Judy a raddiodd mewn Ffrangeg ond sydd wedi ymgartrefu yn yr Eidal ers dros deng mlynedd ar hugain; Sian, a fu ym Mharis yn y chwedegau yn astudio'r delyn ac yn byw erbyn hyn yn Rhiwbeina, ac Ann sydd erbyn hyn yn gantores broffesiynol, a hi sy'n dwyn y sylw y tro hwn.

Yn gyn-ddisgybl o Fryntaf ac o Ysgol Hywel, Llandaf mae Rachel Ann Morgan wedi ymsefydlu yn Amsterdam ers ugain mlynedd. Telynores y Gerddorfa Ballet Iseldireg oedd hi cyn troi at ei gyrfa fel cantores. Mae hi wedi ennill nifer o wobrau am ganu opera a lieder yn yr Iseldiroedd ac yng ngwlad Belg, ac mae hi hefyd wedi cyhoeddi sawl cryno ddisg yn amrywio o ganu caneuon Celtaidd hunan-gyfeiliant, caneuon gan Handel i gyfeiliant telyn, caneuon John Ireland i gyfeiliant piano, i ran Dido yn opera Purcell, 'Dido ac Aeneas', a rhan y contralto yn oratorio'r Messiah. Bu yn perfformio yn Efrog Newydd yn ddiweddar yn canu rhan y dduwies Athene yn yr opera cynnar 'Il Ritorno d'Ulisse in Patria' gan Monteverdi, a chafodd glod hefyd am ei phortread o Lucretia mewn gwaith cyfoes gan Britten.

Mae hi'n ymweld yn gyson â'i theulu yng Nghaerdydd, ac roedd achos arbennig i ddathlu'r flwyddyn newydd eleni gan iddi dderbyn anrhydedd yr OBE am ei chyfraniad yn lledaenu gwybodaeth am ein diwylliant - mae cynulleidfaoedd yr Iseldiroedd wedi dysgu am ganu penillion, Dafydd ap Gwilym a Mansel Thomas!

Er fod y teulu ar wasgar ac yn meddu ar sawl iaith rhyngddynt, y Gymraeg yw'r iaith a ddefnyddir yn naturiol pan ddaw'r teulu ynghyd. Dyma felly dystiolaeth o bedair cenhedlaeth yn byw yn y brifddinas a thramor ac sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol, ac yn parhau, felly, i drosglwyddo ein treftadaeth i'w plant. Tybed a all rhai o ddarllenwyr eraill **Y Dinesydd** ragori ar hyn, sef pedair cenhedlaeth yn byw yn y brifddinas a phob un ohonynt yn Gymry Cymraeg rhugl. Anfonwch eich hanes chi at **Y Dinesydd.**



NODWEDD

**Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r cyffiniau**

# O LANDEILO I LANBEDR

Os ewch ar hyd traffordd yr M4 o Gaerdydd tua'r gorllewin, ar y dde wrth groesi'r morfa ger afon Llwchwr a Phontarddulais y mae safle hen eglwys unig Llandeilo Tal-y-bont, yr eglwys blwyf hynafol honno sydd yn y broses o gael ei symud a'i hailgodi yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan.

Yn ail hanner y ddeunawfed ganrif yr oedd ffermdy Llandeilofach, gerllaw'r hen eglwys, yn gartref am rai blynyddoedd i Ddafydd William, un o'n prif emynwyr. Yn wir, yn ôl traddodiad lleol, ysgrifennodd un o'i benillion enwocaf ym mynwent yr eglwys, ar ôl iddo gyrraedd gartref o'r cwrdd ar noson stormus a'r morfa yn un llyn anferth o Bontarddulais i Gasllwchwr, a'i wraig yn gwrthod codi i agor y drws iddo! Dyma'r pennill ar ei hyd:

*Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau*
*Nid oes neb a ddal fy mhen*
*Ond fy annwyl Briod Iesu*
*A fu farw ar y pren:*
*Cyfaill yw yn afon angau*
*A ddal fy mhen i uwch y don;*
*Golwg arno wna i mi ganu*
*Yn yr afon ddwfn hon.*

Mae delweddau yn ymwneud â dŵr i'w cael yn bur aml yn emynau Dafydd William, a'r rheini yn amlach na pheidio yn gysylltiedig â phethau drwg bywyd. Nid yw hynny'n syndod o gofio ei fod wedi byw am gyfnod ar dir a oedd yn agored iawn i lifogydd. Ond y mae ei emynau yn byrlymu â phob math o ddelweddau eraill hefyd. Yn wir, 'byrlymus' yw un o'r geiriau cyntaf a ddaw i'r meddwl yng nghyd-destun gwaith Dafydd William, oherwydd er ei fod yn disgrifio bywyd yn aml yn nhermau brwydr neu fordaith anodd, ar yr un pryd y mae nodyn o hyder a llawenydd yn rhedeg trwy ei waith, a hynny'n codi o'i sicrwydd fod yr Iesu wedi cario'r dydd ar ei holl elynion ac y bydd yn ei arwain yn ddiogel trwy bob storm i hafan deg y nefoedd. Nid damwain ydyw mai Gorfoledd ym Mhebyll Seion yw teitl y casgliad pwysicaf o'i emynau.

Teiliwr oedd Dafydd William wrth ei grefft, ond bu hefyd yn athro ysgol am flynyddoedd. Tua 1777, ac yntau o gwmpas trigain mlwydd oed, aeth i gadw ysgol i ardal Llanbedr-y-fro ym Mro Morgannwg, gan drigo mewn bwthyn ar lan ddeheuol afon Elai (ger y fan y codwyd y 'Glyn Cory Garden Village' arni yn nechrau'r ganrif hon). Mae'n fwthyn a gostiai ffortiwn fach erbyn heddiw, mae'n siŵr, petai'n dal ar ei draed!

O ddyddiau ei droedigaeth bu Dafydd William yn weithgar gyda'r Methodistiaid, ond erbyn iddo symud i'r Fro yr oedd wedi'i argyhoeddi o

*Parhad ar dud 11*

## ACTOR IFANC



Owen John o Lysfaen, disgybl yn Ysgol Y Wern, a fu'n actio rhan Luke Johnson yn y ffilm 'Ergyd Farwol' a ddangoswyd ar S4C dros y Nadolig. Y prif actorion eraill oedd John Ogwen a Philip Madoc

## LLWYDDIANT MATTHEW

Mae'n siŵr na fydd neb a welodd gynhyrchiad Ysgol Glantaf o'r ddrama-gerdd 'Elfis' y llynedd yn anghofio perfformiad ysgubol Matthew Evans fel y prif gymeriad. Nid syndod felly oedd darllen am lwyddiant arall a ddaeth i'w ran yn ddiweddar. Enillodd Matthew ysgoloriaeth yn noson wobrwyo yr 'Evening Standard'. Ef yw enillydd cyntaf gwobr Patricia Rothermere. Derbyniodd ei wobr gan yr actores enwog Diana Rigg. Mae Matthew bellach yn fyfyriwr yn RADA, a dywedodd y byddai'r ysgoloriaeth yn help mawr iddo.

## PRIODAS DAU GYN-DDISGYBL ❤ GLANTAF ❤

Dydd Sadwrn, Hydref 23 yng nghapel Y Tabernacl, Y Barri, priodwyd dau gyn-ddisgybl Ysgol Glantaf, sef Tracy Mathias, merch Clive a Valerie Mathias, Y Barri, a Gareth Norton, mab Keith ac Eluned Norton, Cyncoed.

Mae Gareth yn athro yng Nglantaf a Tracy yn therapydd lleferydd yn Ysbyty'r Mynydd Bychan ac Ysbyty Llandochau. Mae'r ddau yn aelodau o Ddawnswyr Nantgarw, ac wedi ymgartrefu yn ardal y Rhath.

# YSGOLION

**Y mis hwn rydym yn cynnwys peth o waith plant Ysgol Y Wern, a newydd neu ddau am rai o gyn-ddisgyblion Ysgol Glantaf**

# OLIFER

gan Nia Mair Jones



Plant Ysgol Y Wern yn mwynhau perfformio y sioe Olifer yn yr ysgol ychydig cyn y Nadolig

Amser y Nadolig oedd hi yn yr ysgol a chyhoeddodd yr athrawon taw 'Olifer' fyddai ein sioe yn yr Adran Iau y flwyddyn hon. Roedd pawb yn bryderus i wybod pwy oedd yn mynd i gael pa ran yn y perfformiad. Cawsom 'auditions' a daeth y canlyniadau ychydig ddyddiau yn ddiweddarach.

Casglodd pawb at ei gilydd yn y neuadd i glywed y canlyniadau a daliais fy anadl pan gafodd fy enw ei alw allan i chwarae rhan Olifer. Fe droiodd pawb i fy llongyfarch ac mi fûm innau o gwmpas yn llongyfarch y plant eraill. Carys John oedd Dodger, Sian Clyburn oedd Fagin, Mr Bumble oedd James Mackay, y Weddw Cocney oedd Caroline Harrison, Nia Thomas oedd Nansi, Victoria Howe oedd Bet a Rhys Brame oedd Bill Sykes. Fe gafodd nifer o'n dosbarth eu dewis i fod yn y gerddorfa ac eraill rannau mewn nifer o'r golygfeydd.

O fy safbwynt i fe fwynheuais gymryd rhan yn y sioe. Roedd y neuadd yn orlawn y tri phrynhawn. Teimlais yn nerfus y prynhawn cyntaf hwnnw, ond mae'n rhaid dweud fe fwynheuais y ddau brynhawn olaf yn fawr iawn.

Mae'n anodd sôn am un rhan yn arbennig oherwydd fe fwynheuais bob rhan ohono. Fe gefais y cyfle i ddefnyddio meicroffon i ganu. Cefais gryn dipyn o sioc ar y dechrau ac fe fues yn pryderu llawer yn yr ymarferion. Fe deimlais yn hapusach fel aeth yr amser ymlaen. Wrth edrych yn ôl rydw i'n ddiolchgar fy mod wedi cael y cyfle.

# FFILMIO YN Y GYFRES 'GLAN HAFREN'

Rydw i yn hoff iawn o actio. Rwy'n mynd i weithdy Drama y Sherman ac rwy'n mwynhau yn arw iawn. Un dydd daeth mam i'r ysgol heb i mi wybod. Roeddwn i yn y neuadd yn ymarfer ar gyfer 'Olifer', a daeth mam i fy nol o'r ysgol yn y car.

Dywedodd wrthyf fy mod yn mynd i gael 'audition' i raglen deledu o'r enw 'Glan Hafren'. Roeddwn wrth fy modd. Fe aethom ni i Groes Cwrlwys i HTV i weld Mr Graham Jones. Bu Mr Jones yn gofyn cwestiynau i mi, a dywedodd wrthyf y byddai yn fy ffonio ar y dydd Iau wedyn.

A dyna ble roeddwn yn mynd i fyny i'r stiwdio. Roedd pawb yn garedig iawn i mi. Roedd rhaid i mi golli pedwar dydd o'r ysgol. Doedd dim lot fawr gen i i'w ddweud ond fe fûm yn y rhan fwyaf o'r golygfeydd.

Fy enw yn y stori oedd Llio Griffiths, ac roeddwn yn dioddef o lid yr ymenydd. Roedd rhaid i mi gael colur i ddangos fy mod yn sâl. Dydw i ddim am ddweud beth ddigwyddodd i mi yn y stori oherwydd dydi'r rhaglen ddim wedi bod ar y teledu eto. Fe ges i amser da iawn yn actio yn 'Glan Hafren'.

# DYSGU CYMRAEG

dan ofal Mair ac Alun Treharne

Cyn y Nadolig y cwestiwn ar wefusau pawb oedd 'Beth brynwn ni i....? Erbyn hyn daeth cwestiwn arall i gymryd ei le - 'Ble awn ni eleni?' Mae'r papurau a'r cylchgronau'n llawn hysbysebion gwyliau a'r rhaglenni gwyliau yn amlwg ar y teledu.

Mae Tom a Mari Jones wedi dwli ar ddisgrifiad o fwthyn mewn cylchgrawn gwyliau ac maen nhw'n ystyried mynd yno gyda'u teulu ifanc. Mae llawer o bethau o blaid (in favour of) y bwthyn ond mae rhai problemau hefyd. Dychmygwch y sgwrs rhwng y ddau a rhowch gynnig ar (have a go at) yr ymarferion canlynol.

1. Cysylltwch y brawddegau yn yr adran **Problemau** â'r ymateb cywir yn yr adran **Atebion**.

| **PROBLEMAU** | **ATEBION** |
|---|---|
| Mae'r grisiau yn y bwthyn yn serth | Gallen ni ymdopi â chawod am bythefnos |
| Mae'r daith o Gaerdydd yn hir gyda phlant bach | Pam nad awn ni ddechrau'r tymor? |
| Does dim dillad gwely ar gael | Pam na thorrwn ni'r daith ac aros un noson ar y ffordd? |
| Ystafell gawod sydd yn y bwthyn nid ystafell ymolchi | Beth am ofyn am glwyd ddiogelwch? |
| Mae'r ardal yn gallu bod yn brysur iawn ar ganol y tymor gwyliau | Fydd dillad gwely ddim yn cymryd gormod o le yn y car |

2. Cysylltwch y brawddegau yn yr adran **O Blaid** (in favour of) â'r ymateb cywir yn yr adran **Ymatebion** (Responses).

| **O BLAID** (In favour of) | **YMATEBION** |
|---|---|
| Mae digon o lwybrau cerdded yn yr ardal os bydd y tywydd yn braf | Gallen ni ymlacio yno |
| Mae pwll nofio mewn pentref cyfagos | Gallen ni gael digon o ymarfer |
| Mae'r bwthyn wyth milltir o dref fawr, fywiog | Beth am fwcio **Nawr?** |
| Mae gardd o gwmpas y bwthyn | Gallen ni fynd â'r plant yno am awr bob bore |
| Mae gostyngiad o 10% tan ddiwedd y mis | Gallen ni wneud ein siopa bwyd yno ac ymweld â lleoedd diddorol yr un pryd |


Mae'r patrymau 'Beth am ...?' 'Pam na ...?' 'Gallwn i' etc. 'Rwy'n awgrymu ...' yn ddefnyddiol iawn wrth gynnig awgrymiadau (when making suggestions). Allech chi gynnig syniadau eraill i Tom a Mari?

# Darluniau Byw

Ceffyl blaen: Person sy'n hoffi bod yn amlwg (one who likes to be seen/prominent).

e.e. Dydy e ddim yn barod i weithio fel rhan o'r tîm fel pawb arall. Mae'n mynnu (insists on) bod yn **geffyl blaen.**

*Arlunwaith gan Cen Williams (Darluniau Byw, Gwasg Gomer, 1990)*



Ceffyl blaen

# GWYLIAU

## LLANDAF

• Cydymdeimlwn yn ddwys â Mags - Margaret Llwchwr - a'i theulu yn eu profedigaeth o golli mam, Mrs Myra Rees. Colled bersonol ddofn iddynt, ond colled hefyd i Gymru gyfan. Daeth cyfnod i ben, a chwith meddwl na ddaw cyfle eto i gyfarch a chwmnïa a Myra ar faes Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol. Byddai clywed yr enw 'Parti Llwchwr' yn cael ei gyhoeddi o lwyfan y Brifwyl yn sicrwydd o safon uchel. Fe hyffordd ac fe ddisgyblodd Myra genedlaethau o blant, yn unawdwyr, deuawdwyr, partïon a chorau. Bydd ein bywyd diwylliannol yn dlotach o'i cholli. Ymfalchiwn i'r Eisteddfod Genedlaethol weld yn dda i'w hanrhydeddu trwy gyflwyno iddi Fedal Syr Thomas Parry Williams am ei gwasanaeth, ac iddi hithau felly wybod bod Cymru gyfan yn diolch am ac yn gwerthfawrogi ei holl lafur.

## EGLWYS DEWI SANT

Ymwelodd llu o addolwyr Eglwys Dewi Sant ag Eglwys Sant Ioan Y Cymer ar nos Sul, Ionawr 30ain i gynnal Hwyrol Weddi Gymraeg, ynghyd â phlant ag athrawon Ysgol Gyfun Gymraeg, Y Cymer. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Maxwell Evans, a thraddodwyd y bregeth gan y Parchedig Aled Edwards.

Cafwyd darlleniadau ac eitemau gan blant yr ysgol. Braint oedd cael bod yno i glywed y plant yn ail gynnau'r hen dân Cymreig ar aelwyd y Rhondda unwaith eto - cenhadaeth bwysig iawn. Daliwch ati, blant Y Cymer.

## GENEDIGAETH

Ar Ionawr 24ain i Dr Eve a Meurig Evans, 36 Heol Llanfair, Pontcanna, merch fach annwyl - Bethan Manon. Mae pawb yn dotio arni. Dyma wyres gyntaf i Margaret a Gwynne Evans, Lady Mary Road.

## CYD DE MORGANNWG

EISTEDDFOD DYSGWYR MORGANNWG A GWENT 1994

*Nos Fercher, 23 Mawrth, 1994*

Canolfan Yr Urdd, Heol Conwy, Treganna, Caerdydd

7 p.m.

Rhaglenni ar gael drwy Mair ac Alun Treharne. Rhif ffôn: 754436

DRAMÂU

# TRAIS TYNER

Yn ystod mis Chwefror a Mawrth eleni bydd 'Trais Tyner' - ail gyflwyniad Cwmni Theatr 'Y Gymraes!' - yn teithio led led Cymru. Bydd cyfle i weld y cyflwyniad yng Nghaerdydd yng Nghanolfan Chapter ar Mawrth 1 a 2.

# RHOSYN A RHYCH

Yn dilyn llwyddiant ysgubol 'Deial 999' a 'Tweileit Zon' mae cwmni Bara Caws am fentro yn ôl i'r clybiau efo sioe arall gan Twm Miall - 'Rhosyn a Rhych'. Bydd cyfle i weld y cynhyrchiad hwn yng Nghanolfan Chapter nos Wener a nos Sadwrn, Chwefror 25 a 26 am 8.30 o'r gloch. Tocynnau ar gael o Chapter, ffôn 0222 399666.

# *APÊL AM DIWTORIAID I DDYSGU CYMRAEG*

Tybed a oes gan rai o ddarllenwyr Y Dinesydd ddiddordeb mewn dysgu Cymraeg i Oedolion? Os oes, hoffai Cell Caerdydd Cymdeithas Yr Iaith Gymraeg siarad â chi ar unwaith!

Ers pum mlynedd bellach mae Cell Caerdydd wedi bod yn cynnal cyrsiau Cymraeg dwys i oedolion ar sawl lefel yn ardal Y Rhath, cyrsiau sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus. Ond un broblem sydd yn codi dro ar ôl tro oherwydd eu poblogrwydd a'r nifer sy'n cofrestru arnyn nhw yw dod o hyd i ddigon o diwtoriaid i gymryd y dosbarthiadau hyn. Mae'r Gell yn chwilio am Gymry Cymraeg a dysgwyr rhugl i ddysgu dosbarthiadau ar sawl lefel dechreuwyr, gweddol brofiadol ac uwch, ar nosweithiau Llun i Iau.

Os hoffech chi gynnig eich gwasanaeth un noswaith yr wythnos (neu fwy hyd yn oed!) cysylltwch â mi yn Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath neu ffoniwch 486469. Peidiwch â phoeni os nad oes unrhyw brofiad blaenorol o ddysgu gyda chi gan ein bod yn cynnig hyfforddiant ymlaen llaw.

Yn gywir
Richard Lewis

**CYNGERDD GŴYL DDEWI MERCHED Y WAWR Y BONTFAEN**

Mae cangen Merched Y Wawr Y Bontfaen yn cynnal cyngerdd **Gŵyl Ddewi** yng nghwmni Côr Telynau Tywi, nos Wener, Chwefror 25ain am 8 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Y Bontfaen. Yr arweinydd yw Meinir Lloyd, a'r cyflwynydd yw Peter Hughes Griffiths. Tocynnau - £3 yr un, £1 i blant oddi wrth Mair James (0446 772423) neu oddi wrth Cath Thomas (0446 774530).

# *Holi'r Sêr*

yng nghwmni EIRY PALFREY



**ENW:** Shân Emlyn
**DYDDIAD GENI:**
Chwefror 8fed - Acwariws
**AMSER GENI:** Ddim yn gwybod
**MAN GENI:** (tref agosaf) Rhydychen
**HOFF LIW:** Glas
**HOFF FLODYN:** Rhosyn
**SUT Y BYDDWCH CHI'N TREULIO'CH ORIAU HAMDDEN?**
Yn darllen, gwylio teledu, a gofalu bod ffrindiau'n galw heibio
**OES GENNYCH CHI HOBI? BETH YW E?**
Casglu gwydr pinc, ymddiddori mewn hen bethau a Patagonia
**BLE A PHRYD RYDYCH CHI HAPUSAF?**
Yn cyrraedd adre o rywle
**PA GAR SYDD GYDA CHI, A BETH YW EI LIW?** Renault 19 du
**PA GAR HOFFECH CHI EI GAEL?**
Un newydd sbon fel yr un sy gen i
**BETH YW EICH HOFF FWYD?**
Wy a chips
**BLE RYDYCH CHI'N HOFFI MYND AM WYLIAU A PHAM?**
Ffrainc, Groeg, Patagonia - i ymlacio a dianc o drafferthion bywyd ac i ddysgu rhywbeth newydd
**PWY YW EICH HOFF BERFFORMIWR?**
Bryn Terfel
**PWY YW EICH HOFF AWDUR?**
Kate Roberts
**BETH NEU PWY SY'N MYND AR EICH NERFAU?** John Redwood, a phobl sy ddim yn driw iddyn nhw'u hunain - y rhai sy'n ymddwyn yn ôl yr achlysur
**BETH YW EICH BAI MWYAF?**
Diniweidrwydd - bod yn rhy barod i ymddiried mewn pobl
**BETH YW EICH CRYFDER MWYAF?**
Styfnigrwydd - byddai rhai yn ei alw yn 'ddyfalbarhad'
**BETH YW EICH HOFF ANIFAIL?**
Dydw i ddim yn hoffi anifeiliaid ar wahân i fwnciod PG Tips
**PE CAWSECH CHI'R DEWIS, YM MHA WLAD HOFFECH CHI FYW?**
Mi fyddwn i'n dal i fyw yng Nghymru
**BETH SY'N EICH GWNEUD I CHWERTHIN?**
Yr wyrion, a chwmni afiaethus ffrindiau
**PWY YW EICH HOFF GERDDOR/CERDDORIAETH?**
Mozart ac alawon gwerin


## BARN YR ASTROLEGYDD

Fe anwyd Shân ar Chwefror 8fed, ac fel pawb a anwyd rhwng Ionawr 20fed a Chwefror 19eg mae hi'n Acwariws - sef arwydd Awyr wedi ei reoli gan y blaned anghonfensiynol ac annisgwyl Uranws.

Mae Acwariws fel arfer yn berson gwreiddiol, annibynnol, 'gwahanol', ac yn un sy'n mwynhau rhyddid. Mae hynny'n amlwg oddi wrth rai o atebion Shân - sawl person arall fyddai'n meddwl enwi mwnciod PG Tips fel ei hoff anifail? - ond gall fod yn rebel croes ac anodd ar adegau. Mae ganddynt deimladau cryf dros neu yn erbyn popeth, a bydd hyn yn peri iddynt weithiau ymddangos yn styfnig (fel y cyfaddefodd Shân). Mae pethau newydd gwahanol bob amser yn apelio atynt. Mae'n haws iddynt garu llawer o bobl nag un person, a gall hynny beri iddynt ymddangos yn oeraidd a phell. Does dim dal beth wnan nhw nesaf gan fod y rhain yn bobl sy'n llawn cywreinrwydd ac yn glyfar iawn hefyd. Eu nod yw ehangu eu gwybodaeth (a dyna nod Shân wrth fynd ar wyliau). Maen nhw'n dueddol o ddelfrydu pob peth (neu ymateb yn 'ddiniwed', chwedl Shân). Mae'n gas ganddyn nhw gaethiwed; mae rhyddid yn holl bwysig iddyn nhw, ac mi fyddan nhw'n mynnu cael eu rhyddid a'u ffordd eu hunain bob amser. Maen nhw'n caru dynoliaeth, ac mae eu cyfeillion yn bwysig iawn iddynt, ac mae hynny'n amlwg iawn ym mywyd Shân. Cânt eu brifo i'r byw os bydd rhywun yn eu gadael i lawr neu'n bradu eu cyfeillgarwch mewn unrhyw ffordd.

Mae gan Shân siart gytbwys, amryddawn sy'n awgrymu y gall droi ei llaw at amryw o bethau. Ond gan na ŵyr amser ei geni, rhaid edrych ar safle'r Lleuad yn ei siart. Roedd y Lleuad yn arwydd Leo pan anwyd Shân sy'n sicrhau ei bod yn berson sy'n aml yn llygad y cyhoedd - yn wir fe ddechreuodd ar ei gyrfa gyhoeddus fel cantores werin yn ifanc iawn. Mae hi hefyd wedi cyflwyno amryw weithiau ar y teledu a'r radio, heb sôn am olygu'r Dinesydd am flynyddoedd lawer. Mae hi'n drefnydd da gyda phersonoliaeth radlon hwyliog, gyda digon o hunanhyder. Mi fydd wrth ei bodd yn gwahodd ffrindiau i'w chartre i'w bwydo. Yn wir, pan ffoniais i Shân i ateb hyn o holiadur roedd llond tŷ o ffrindiau yno yn mwynhau cinio Sul. Mae hi'n hoffi'r gorau mewn bywyd - gwydr pinc, a hen bethau? - er bod yna elfen biwritanaidd werinol sy'n brwydro yn erbyn hynny weithiau, fel ei hoffter o wy a chips!

# Y CROESAIR - AP LEWSYN RHIF 136




### *AR DRAWS*

5 Profodd aml i lowr ar brydiau y gallai fod yn ddewr. (6)
6 Cuddiwyd rhan o'r boda llwyd fel nad oedd yn bosib ei weld yn iawn. (6)
9 Yr amgylchedd a geir yn dioddef felly. (6)
10 Ai duwies y cariadon a biau'r noson? (3,5)
11 Tyrd i'r Sowth. (4)
12 Tuedd i ruthro ymlaen yn anystyriol, gan ddefnyddio llwybr byr at y nod. (10)
13 Geiriau lliwgar sy'n seinio ar ddau drefniant. (11)
18 I santes dwt y mae'r diolch am eu bod wedi tewi. (10)
21 Bwlch a wnaed gan yr adeiladwyr. (4)
22 Byddai yn hercyd. (8)
23 Arweinydd diogel ar y ffordd ddisathr o waelod y cwm i'r uchelfannau. (6)
24 Trigfan ger yr afon sy'n rhoi gafael ar y gwir. (6)
25 Onid ai pobl i gael lles o'r diwygiad? (6)

### I LAWR

1 Mae'n bosib mai chwaer Noa a drefnodd y campau cyntaf. (8)
2 Mae ei henw anwes, sef Bopa, bron a diflannu. (6)
3 Yr hyn yw 3 i 9 a 5 i 25. (8)
4 Lle i bwy sydd ag angen offer naddu. (6)
5 Merch o'r nefol lu. (6)
7 Rhoi yn y gro. (6)
8 Cymrwch ffedog Nain er mwyn ei gwnio gan ei bod yn anghyflawn. (11)
14 Mae yma sawl rhod yn troi. (8)
15 Ymbil R. S. Hughes....... (5,3)
16 ......a'i gynnyrch. (6)
17 Ai â siwgr 'e daena'r athro ei ddarpariaeth? (6)
19 Afon Llanbrynmair yn achosi clefyd? Prin. (6)
20 Byddai yn preswylio. (6)

### DATRYSIAD 135




### CYSTADLEUAETH RHIF 135

Daeth pedwar-ar-bymtheg o ymgeiswyr i'r maes, a chafwyd datrysiad hollol gywir gan ddeunaw ohonynt. Yr enw a dynnwyd i ennill y tocyn llyfr oedd Dilys Gunston, Heol Tŷ Gwyn, Cynoed. Enwau'r lleill oedd:- Heledd Hall, Treganna; J. D. Williams, Penygroes, Llanelli; Gwenda Hopkins, Llanisien; J. T. Davies, Llandaf; D. Evans, Pencaenewydd, Pwllheli; John Breese, Glanyrafon; T. Arfon Owen, Y Borth; Sylvia Evans, Y Maendy; Hilda Ethall, Rhiwbeina; Marged Davies, Llandaf; Guto Rhys, Y Rhath; Margaret Jones, Cyncoed; Robin Bateman, Yr Eglwys Newydd; Carys Humphreys, Bangor; Huana Simpson, Y Bontfaen; Nansi Mathias, Parc y Rhath, a Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd.

### CYSTADLEUAETH RHIF 134

Tocyn Llyfr £5 fel arfer. Pob ymgais i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn Chwefror 21ain, os gwelwch yn dda. Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair.

# ING A GWEWYR




## GALAR Y BEIRDD / POETS' GRIEF: MARWNADAU PLANT

gan Dafydd Johnston.

Yr hyn sy'n taro'r darllenydd gyntaf yn yr argraffiad hwn yw diwyg trawiadol y siaced lwch sy'n dangos cerflun o ŵr o'r Canol Oesau a'i wyneppryd yn cyfleu ing a gwewyr profedigaeth. Dyma destun y llyfr hynod ddeniadol hwn mewn gwirionedd, sef beirdd y Canol Oesau yn darlunio mewn geiriau, y marwnadau, eu colled o golli plentyn neu yn wir mewn rhai enghreifftiau deulu cyfan o blant. Roedd profedigaeth yn dod yn aml a sydyn yn y Canol Oesau ond ddoe fel heddiw colled drom yw colli plentyn ac fe gyfleir y boen yng ngweithiau'r beirdd trwy gyfrwng nifer o ddelweddau. Mae'n destun na chafodd hyd yma fawr o sylw yn llenyddiaeth Ewropeaidd y cyfnod.

Llyfr dwyieithog yw hwn. Ceir Rhagymadrodd sy'n gosod cefndir statws y plentyn yn y gymdeithas a dyfynna'r awdur o waith bytholwyrdd Philippe Aries sy'n awgrymu *canrifoedd o blentyndod*. Yn dilyn ceir y Rhagymadrodd yn Saesneg. Mae testun pob marwnad yn Saesneg a Chymraeg yn gyfochrog; ceir cyflwyniad cryno i bob bardd yn y ddwy iaith ynghyd â nodiadau eglurhaol defnyddiol iawn.

Ceir naw cerdd, a chynhwysir cerdd ingol Lewys Glyn Cothi i Siôn y Glyn gan 'roi cyfle i weld y gerdd arbennig honno yn ei chyd-destun llenyddol fel rhan o draddodiad datblygedig.' Dyma agwedd ar ein traddodiad barddol na chafodd fawr o sylw. Mae'r cerddi yn rhoi cip ar safle'r plentyn yn y gymdeithas, agwedd oedolion tuag at farwolaeth, ond yn bennaf oll ceir yma ddarnau o farddoniaeth sydd ymysg y mwyaf cain ac angerddol yn ein traddodiad barddol.

Mae'r awdur, Dr Dafydd Johnston, yn Uwch-ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Coleg Caerdydd. Cyhoeddodd nifer o weithiau yn trafod barddoniaeth Gymraeg ac yn eu mysg ceir ei olygiad safonol a meistrolgar o waith Iolo Goch a'r gyfrol arloesol *Canu Maswedd yr Oesoedd* (1991). Cynlluniwyd y llyfr hwn eto yn hynod ddeniadol gan Siân Johnston o Tafol (Grangetown, Caerdydd), ac fe'i brithir gyda brasluniau o'r eiddo Androulla Cleovoulou sydd hefyd yn gyfrifol am y siaced lwch (ac am ddylunio'r Dinesydd!)

**Tecwyn Vaughan Jones**

NEWYDDION

## CLWB PÊL RHWYD CYNRADD YR URDD

Bydd Clwb Pêl Rhwyd Cynradd Cymraeg yr Urdd Caerdydd yn cwrdd pob nos Fercher am 6 o'r gloch hyd 7 o'r gloch yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd o'r ail Chwefror 1994 ymlaen.

Y tâl yw £1 y person.

Gwahoddiad yw hwn i ferched rhwng 7 ac 11 mlwydd oed. Am ragor o fanylion cysyllter â Sian Jobbins ar (0222) 236201.

## SAIN, CERDD A CHÂN

Mae aelodau'r côr Adlais o Ynys Môn yn brysur baratoi ar gyfer y cyngerdd maent yn roi i ni yn Neuadd Yr Ysgol Feddygol ar y 26ain o Chwefror. Edrychant ymlaen yn eiddgar at eu hymweliad cyntaf â'r brifddinas, a mawr hyderwn y bydd cynulleidfa deilwng i'w croesawu.

Edrychwn ymlaen at weld Robin Jones yn ôl i'n plith wedi ei ymweliad pwysig ag Awstralia, ac i glywed eto lais swynol Heather Jones ar yr achlysur hwn.

Bydd yr elw yn mynd i Tenovus, a gellir cael tocynnau drwy ffonio 0222 747086 neu 732877

**Gofal Plant:**

Angen merch fywiog i helpu gofalu am 2 fachgen (2,3 mis) mewn ffermdy ger Aberhonddu. Gall fod yn waith haf neu barhaol.
Ffôniwch Carys ar 0874 625542

**Annwyl Olygydd:**

Tybed a ŵyr rhai o'ch darllenwyr am bobl sy'n awyddus i ddysgu Cymraeg. Os gwyddant, efallai y bydd y wybodaeth ganlynol o ddiddordeb iddynt. Bydd gwersi Cymraeg ar gyfer dysgwyr (o'r cychwyn cyntaf) yn dechrau yng Nghlwb Ifor Bach am 7 o'r gloch nos Fercher 16eg Chwefror.


Am fanylion pellach cysyllter un ai â Chlwb Ifor Bach, Heol Womaby, Caerdydd ar (0222) 232199 neu ar (0222) 464415.

Yn ddiolchgar
G. Rhys

I'w Gosod - dwy ystafell yn y Rhath. Rhent £30 yr wythnos a rhannu biliau. Am ragor o wybodaeth cysyllter â (0222) 464415

# Y CAMPAU

dan ofal Thomas Davies



Terry Yorath - *colli*



John Toshack - *ennill*

## PÊL DROED

Y disgwyl oedd, er i Gymru gael eu curo gan Romania ar Y Maes Cenedlaethol ar Dachwedd yr ail ar bymtheg, y byddai Terry Yorath yn cael ei benodi unwaith eto yn reolwr ar Gymru ar ôl i'w gytundeb ddod i ben. Yn anffodus nid felly y bu, ac wrth edrych ar y modd y mae'r Gymdeithas Bêl Droed wedi delio â phethau dros y blynyddoedd 'dyw hi fawr o syndod nad yw pethau wedi mynd yn ôl y disgwyl. Terry Venables, Brian Robson a John Toshack, rhai o'r enwau yn unig a grybwyllwyd yng nghyd destun y swydd, ond drwy'r adeg roedd dyn yn teimlo mai Terry Yorath yn y diwedd fyddai'n cael y swydd eto.

Er ei fod yn byw yn Leeds gyda'i deulu, yng Nghaerdydd y mae cartref ei rieni o hyd. Yn aml iawn mewn cyfnod cyn gêm, mae o'n aros â nhw yng Ngabalfa ac mae o wedi cadw cysylltiad agos â'r ardal a'i gyfeillion. Yn aml mae o'n cyfrannu at sesiynau holi ac ateb a hyfforddi yn yr ysgolion lleol.

Yn anffodus yng nghanol y cyfnod o drafodaethau bu farw Elfed Ellis, Llywydd y Gymdeithas Bêl Droed, wrth ddychwelyd o ymweliad â Helsinki. Yn bendant iawn ei farn, anaml iawn roedd pawb yn cytuno ag o. Ond roedd ei gyfraniad i bêl droed yn aruthrol. Yn weithgar wrth sefydlu sawl cynghrair gan gynnwys Konica, roedd ganddo gariad mawr tuag at y gêm a'i wlad. Mi fydd pêl droed yn dlotach hebddo...

**Ian Gwyn Hughes**

## Y MAES MAWR

Ie, Y Maes Genedlaethol - Y Maes Mawr. Roedd hi'n ddiwrnod gwlyb a gwyntog pan chwaraewyd Yr Alban yn Ionawr, ond ni chwynai neb am y tywydd. Cawsom ni weld gwell rygbi nag a ddisgwyliwyd, a buddugoliaeth ddigamsyniol o'r diwedd: pe byddai Cymru wedi chwarae felly yn erbyn Canada, gwahanol iawn fuasai'r canlyniad hwnnw yn sicr. Y tro hwn roedd y dacteg yn iawn a'r ysbryd yn ardderchog - yr oeddwn i'n hyderus y gellid curo'r Gwyddelod hefyd.

Bu cynnig gan rywun yng Nghyngor y Ddinas neu yng Nghyngor De Morgannwg rhywdro y dylid prynu'r Maes Mawr er mwyn codi archfarchnad yno, a phrotestiais i'n chwyrn (ynghyd â'r rhan fwyaf o'r genedl). Ar ôl gweld yr ornest yn erbyn Canada, meddyliais i mai archfarchnad a ddylai fod yno wedi'r cyfan. Ond nid bellach; cyflawnodd y fuddugoliaeth dros Yr Alban gymaint â hynny, beth bynnag.

T.D.

# MEDDYGFA'R FLWYDDYN ~ CLOD I'R DR ANN A'I THÎM



*Llun trwy ganiatâd y Western Mail ac Echo*

Yn y llun uchod gwelir Sue Mansfield, Jackie Melhuish, Margaret Evans, Lisa Richardson, Dr Simon Knight, a Dr Ann Lloyd Jones, sef rhai o aelodau'r tîm llwyddiannus.

Enillwyd gwobr am yr adnoddau a'r gwasanaethau meddygol gorau yn Ne Morgannwg y llynedd gan Syrjeri Cathays, sydd wedi gofalu am tua pedair mil o bobl yr ardal ers blynyddoedd cynnar y ganrif.

Sefydlwyd yn gyntaf mewn tŷ yn Woodville Road, ac wedi'r Ail Ryfel Byd, symudwyd y feddygfa i Cathays Terrace. Yno mae'r doctoriaid Ann Lloyd Jones, Simon Knight a Nicola Brown wedi estyn y tŷ gwreiddiol trwy addasu hwnnw a'r tŷ drws nesaf, a'u gwneud yn un feddygfa foddhaol.

# CYMDEITHAS WYDDONOL CYLCH CAERDYDD

Can mlynedd yn ôl, gwrandawodd Cymdeithas Wyddonol Caerdydd ar ddarlith ddiddorol ar sefydlu un o winllanoedd cynta'r ardal yng Nghastell Coch. Ac ar nos Lun, Chwefror y 14eg, bydd Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd yn cyfarfod i glywed Mr. Kynric Lewis QC yn sôn am ei brofiadau gyda sefydlu gwinllan arall.

Bydd y ddarlith yma, yn wahanol i'r llall, yn Gymraeg, ac fe'i cynhelir am 7.30 p.m. ar drydydd llawr adeilad Ffiseg a Seryddiaeth y Brifysgol yn y Parade, ger Heol Casnewydd.

Croeso mawr i bawb i'n darlith gyntaf mewn lleoliad newydd. Am ragor o wybodaeth, cysyllter â Mr Rhys Morris ar 874000, est 6992, neu 666120, neu â Mrs Gwen Jones ar 563914.

*parhad o dud 5*

gywirdeb bedydd credinwyr, a chafodd ei fedyddio fore Sul, 29 Mehefin 1777, yn afon Elái ger y bont yn Llanbedry-fro. Daeth yn un o brif arweinwyr yr achos Bedyddiedig a sefydlwyd yng nghyffiniau Llanbedr-y-fro yr adeg honno, sef eglwys Croes-y-parc (sy'n fam-eglwys i'r Tabernacl ar yr Ais yng Nghaerdydd), a phregethodd yn helaeth yn eglwysi'r enwad hyd nes i henaint ei rwystro.

Bu farw ddau can mlynedd yn ôl, yn 1794, yng nghartref rhai o aelodau eglwys Croes-y-parc a oedd yn byw yn hen ffermdy Holtwn ger Ynys y Barri, a chafodd ei gladdu ym mynwent Croesy-parc. Fe'i claddwyd, felly, dafliad carreg o'r fan y bydd hen eglwys Llandeilo Tal-y-bont yn sefyll yn Sain Ffagan maes o law - yr eglwys y bu'n byw yn ei hymyl ym mhen arall sir Forgannwg!

**E. WYN JAMES**

APELIO

# CWRS HYFFORDDI TIWTORIAID CYMRAEG I OEDOLION

Mae Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion Prifysgol Cymru, Coleg Caerdydd yn cynnig cwrs hyfforddi i ddarpar-diwtoriaid sydd am ennill cymwysterau ar gyfer dysgu Cymraeg i oedolion. Cynnwys y cwrs 14 o sesiynau hyfforddi'n seiliedig ar yr unedau hynny a enwir ym mhecyn hyfforddi tiwtoriaid Cymraeg i oedolion Cyd-bwyllgor Addysg Cymru. Yn y sesiynau hyn ymdrinir â'r holl sgiliau y mae ar diwtoriaid eu hangen er mwyn dysgu'n effeithiol. Yn ogystal â hyn trwy fynychu'r sesiynau hyfforddi gall darpar-diwtoriaid ennill credydau tuag at dystysgrif Cyd-bwyllgor Addysg Cymru i diwtoriaid Cymraeg i oedolion.

Wedi mynychu pob sesiwn bydd angen ar y darpar-diwtor ymgymryd â phedwar aseiniad ymarferol dan gyfarwyddyd tiwtor personol er mwyn cwblhau gwaith y dystysgrif. Bwriedir y cwrs ar gyfer darpar-diwtoriaid sydd wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant eisoes (e.e. ar gwrs hyfforddi tiwtoriaid rhagarweiniol C.B.A.C.) ac hefyd ar gyfer tiwtoriaid profiadol sydd am ennill cymhwyster ffurfiol neu am ehangu eu gwybodaeth o'r maes dysgu.

Cwrs tridiau fydd y cwrs hwn a gynhelir ar Chwefror 15 - 17. Cost y cwrs fydd £35 (yn cynnwys coffi yn y bore, cinio a the yn y prynhawn). Am ragor o fanylion cysylltwch â Richard Lewis, Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, 22 Park Place, Caerdydd CF1 3DQ. Ffôn (0222) 390980.

# CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON YSGOL MELIN GRUFFYDD

Cynhelir Cwis Gŵyl Ddewi yn yr ysgol nos Fawrth, Mawrth 1af. Bydd y cwis yn gwbl ddwyieithog ac yn dipyn o hwyl! Bydd lluniaeth ysgafn a bar ar gael. Mae croeso i ddarllenwyr **Y Dinesydd** ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi gyda ni - yn Gymry Cymraeg neu'n ddysgwyr.

Am fwy o fanylion neu i gofrestru eich tîm cysylltwch â Linda Thomas, rhif ffôn 693302.

Cynhelir **Sadwrn Siarad** i ddysgwyr yn yr ysgol fore Sadwrn, Mawrth 26ain, gan ddechrau am 10 a.m. Bydd dosbarthiadau i ddysgwyr o bob safon dan ofal athrawon profiadol. Unwaith eto bydd croeso i ddarllenwyr **Y Dinesydd.** Am ragor o wybodaeth cysyllter â Linda Thomas ar y rhif uchod.

**Maw 8 - Iau 10 Mawrth** **Prif Theatr**

**am 7.30pm**

Tocynnau £5.90 £6.90 £7.90 gostyngiadau £1 i ffwrdd Youth Card £4.40

## Ddoe yn Ôl


gan Henrik Ibsen

CWMNI THEATR GWYNEDD

SHERMAN

Pa mor sanctaidd yw priodas? A ddylai plant anrhydeddu eu rhieni? Ymhle y mae dyletswydd yn dechrau ac yn gorffen? Rhai cwestiynau sy'n peri poen, pryder a dioddefaint i Mrs Pritchard Ellis. Wrth i ddoe ddal i fyw yn ei heddiw a bygwth ei hyfory.

Wedi ei lleoli ym Mhen Llŷn ac yn ymdrin â materion tabŵ. Bydd y ddrama yma yn cyffroi, yn cythruddo ac yn fwy na hynny yn procio'r meddwl.





# Y gyfraith...

Mae Hugh James yn un o gwmnïau cyfreithiol mwyaf Cymru. Daeth ein tyfiant drwy ateb gofynion ein cleientiau yn llawn.

# ...a'r iaith.

Siaradwyr Cymraeg, er enghraifft. Yn Hugh James, mae'r iaith a'r gyfraith yn mynd law yn llaw.

**Am ragor o fanylion, cysylltwch â**
**Mr Ceri Preece,**
**Hugh James Jones & Jenkins,**
**Tŷ Arlbee, Heol y Brodyr**
**Llwydion, Caerdydd CF1 4QB.**
**Ffôn 0222 224871.**

HJJJ
Hugh James
Jones & Jenkins
SOLICITORS · CYFREITHWYR



# Davies Bros

*Y fargen orau mewn gwyliau bysiau yng ngwledydd Prydain ac Ewrop*

**Llawer o wyliau am brisiau rhatach na rhai '93.**
**'Brochure' AM DDIM**
**ar gael nawr.**




Mannau casglu yn eich ardal chi.

'Brochure' am ddim ar gael oddi wrth:

*Teithiau Rhyngwladal* DAVIES BROS,

Pencader, Dyfed SA 39 9HA. Ffôn: 0559 384821 neu eich asiant teithio lleol